



Mae hi'n flwyddyn mewnlifiad y gynffon sidan

Tynnwyd y llun hwn gan Aled Jones ym Mangor Uchaf yn ddiweddar. Mae yna adroddiadau o bob man ym Mhrydain meddai Rhys Jones. Oes gennych chi gofnodion?

Mwy am hanes y gynffon sidan yng Nghymru yn y rhifyn nesaf

Y medler - ffrwyth y Nadolig?

Mae'n anodd gen i feddwl am goeden y medler - neu'r feryswydden - heb feddwl am fŵals! Yr afal dindwll yw un enw am ei ffrwyth, ffrwyth sy'n debyg i egroes ond gyda thwll yn ei phen blaen (neu ei phen ôl – dibynnu o ba gyfeiriad rydych yn edrych arno!). Awgrymodd John Harrington, aelod o lys Elisabeth I, a'r un a ddyfeisiodd y WC, y dylem fwyta'r ffrwyth "*if you have a loosenesse gotten*". Un o gredoau y Canol Oesoedd oedd yr athroniaeth bod llysiuyn sy'n dwyn ffurf rhan o'r corff felly yn llesol i drin anhwylderau y rhan honno o'r corff (ee. llysiu'r afu at yr afu y mae'n debyg iddo). Cafodd y gred ei ddyrchafu yn Ddysgeidiaeth y Cyfeirnodau, ac mae'n debyg mai dyna oedd sail cysylltiad y ffrwyth gyda'r pen ôl – bu'n driniaeth at y dolur rhudd.



mwy am y feryswydden ym Mwletin 16

Ni fu'r medler yn gyffredin erioed yn y Gymru wlyb a di-haul, ac ni fu'n ffasiynol i'w dyfu yn unman ers canrif a mwy er iddo barhau yng ngerddi a pherllannau tai mawr megis Rhyd y Creuau, Betws y Coed, a gerddi Treborth ger Bangor. Yr arfer ymhlith y bonedd oedd casglu'r ffrwythau ar ôl y barrug cyntaf a'u gadael i bydru mewn llwch lli – *bletting* oedd eu gair am y broses – cyn eu bwyta mewn siwgr a hufen gyda gwydriad o port. Roedd y "bletio" yn fodd o'i felysu a gwaredu'r taninau asidaidd. Yn ei ddrama "Measure for Measure" cyfeiriodd Shakespeare at yr arfer: "*They would have married me to the rotten*

Medler" meddai un cymeriad ac mewn drama arall o'r un cyfnod "*The Honest Whore*" awgrymodd Thomas Dekker trwy un o'i gymeriadau yntau bod merched yn debyg i'r medler, "*no sooner ripe but rotten*"...twt-twt! Awgrymodd rhywyn mai er mwyn cuddio blas gwin drwg y cyfnod y bwytid y medler efo gwin. Y blas tebycaf iddo yn ôl fy mhrofiad, ar ôl "bletio" rhai a gesglais unwaith, yw datys gwael.

Ym Mhersia (Iran heddiw) y mae'r medler yn tyfu yn ei gynefin naturiol, ac mae'n gwestiwn sut daeth i Brydain yn y lle cyntaf? Cafodd ei gofnodi ym Mhrydain mor bell yn ôl â'r ddegfed ganrif ond y dystiolaeth gyntaf ohonno yw hedyn a gafwyd mewn cloddfa archeolegol yn nghaer Rufeinig Silchester yn swydd Hampshire. *Calleva Atrebatas* oedd yr enw Rhufeinig am Silchester gyda llaw, sef [y dref yn y] coed yn perthyn i lwyth yr Atrebatas. Gair o'r un tras a celli yn y Gymraeg yw *Calleva*, a chytras yw Silchester â *sallow*, sef helyg (dydi llên natur byth yn bell i fwrdd...) Ond 'dae waeth am hynny, mae'r hedyn bach hwn yn profi'n bendant i bren y medler gyrraedd gyda'r Rhufeiniaid tua chyfnod Crist, a chysylltiad anuniongyrchol eu caer yn ne Lloegr a'r Brythoniaid yn rhoi digon o esgus i mi gynnig yr afal dindwll fel un o ddanteithion y Nadolig Gymreig...ac un o feddyginiaethau at yr hyn a ddeuai yn ei sgil!

Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro

Daeargryn (arall) yn Arfon

Ar ôl daeargryn Felinheli ym mis Medi eleni (Bwletin 33), dyma hanes un arall yn Mhenygroes, Arfon gan sawl sylwebydd:

12 Rhagfyr 1940: Daergryn a barhaodd am 43 o eiliadau ym Mhenygroes

Adroddiad am sgwrs Bledwyn Jones i Gymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle: Caer & Denbigh 18 Mawrth 2010

Sir Gaernarfon, 12 Rhagfyr 1940: *Earth tremor in north Wales. Several towns and villages were violently shaken by an earth tremor which lasted 43 seconds. The tremor was felt throughout Caernarvonshire* [dyfyniad o bapur newydd?]

Dyddiadur Y Parch JR Richard

Un storm - tri chofnod

Aberdaron, 8 Rhag 1886: Gwynt mawr Weather Glass yn y stormy.

Dyddiadur Willam Jones, Moelfre, Aberdaron

Aberdar, 8 Rhag 1886: *Terrific storm swept over the country Much damage....Very rainy. In returning from posting a letter, during a heavy storm of hailstones I was knocked down by a cab in crossing Dean Street. Walked home alright. But felt from it afterwards. Aeth ymlaen i ddweud: Oct 15 and 16th 1886; Terrible storm of wind and rain happened on the above days, mostly felt on the south and west coasts. Great loss of life reported on the sea. At Aberystwyth most of the town was literally covered with 4 or 5 feet depth of water. Railway and other traffic temporarily suspended. Trefechan bridge washed away by the Rheidol [sic]*

Dyddiaduron ieuanc Parch. Richard Llywelyn Headley (Gyda diolch i'w ferch y Dr. Mari Ellis, Aberystwyth)

Caerdybi, 9 Rhag 1886: *Gale was no less violent at Holyhead (than where 26 men of Southport vol lifeboat crews were drowned) 3 vessels wrecked at Holyhead: SS Avondale at Penrhyn Point, the Norwegian barque Dagmar in Porth Tywyn Mawr and the Liverpool ship Pegasus on Traeth y Gribin*

Ivor Wynne Jones: Shipwrecks of north Wales

Llun Gabriel Quére



Mae Gabriel yn ffotograffydd profiadol o Lydaw sydd wedi cael arddangosfeydd yn ei wlad ei hun ac mewn amryw o wledydd eraill, Rwsia yn bennaf. Mae'n fraint cael cynnwys un o'i luniau wedi ei dynnu yn arbennig i Oriol Llên Natur

Cyfrannwyd y llun gan Gabriel Quere

Cae Dyfalog....

Meddai Aled, "deudwch rhain yn gyflym... **Dol yr Hydd, Cae Dyfalog...**". Diolch yn fawr Aled - safonol iawn. (Fel mae'n rhaid cofio weithiau, mae gan hiwmor y Clwb Rygbi ei le yn Llên Natur hefyd!)

Briallu cynnar....?



Llen Natur 33 wedi f'atgoffa i dyrchu hwn allan a'i ail-anfon i chi - briallu ar y 12^{fed} o Hydref eleni...

Rhodri Dafydd

Ond dyma gofnod o Norfolk gan y Parch. James Woodforde dyddiedig 30 Tachwedd 1794: *a Primrose in my garden in full bloom, seen by myself and my niece*

Llysiâu'r cwsg

Cofnod yn nyddiadur William Bulkely, Brynddu pan oedd o'n aros yn Nulyn 25 Hydref 1735 (o'r Dyddiadur):

Oct. 25. The wind S.W. ; rained almost all day. Paid 6/- for a pair of shoes ; paid 4d. for 1/4dr. of opium ; paid at my lodging house 4/6 for Punch.

Meddai Twm Elias: Roedd 'na ddefnyddiau meddygol pwysig iawn i opiwm (sug y pabi gwyn) ac fe'i ceid fel soled wedi ei sychu o sug y ffrwyth. Neu gellid ei doddi mewn alcohol a dŵr (cyfartaledd 1 : 1 : 1) i greu Laudanum, oedd yn fwy cyfleus ac yn gweithio'n gynt. Fel hypnotig a 'sedative' (tawelydd) roedd yn ddefnyddiol iawn i leddfu poen a thawelu rhywun oedd wedi gor-gynhyrfu. Roedd ei effeithiau 'astringent' yn dda ar gyfer y bib a dysentri a'i effeithiau expectorant, diafforetig, tawelyddol ac antispasmodig yn ei wneud yn dda ar gyfer rhai mathau o beswch. Mae 'na dros 20 o wahanol alcaloidiau mewn opiwm, a'r ddau fwyaf cyfarwydd erbyn heddiw ydi Codeine a Morphine. Mae'n cael ei dyfu dan drwydded mewn sawl gwlad I gyflenwi'r cyffuriau meddygol hyn ond mae 'na gryn dyfu arno fo hefyd i gyflenwi'r farchnad gyffuriau anghyfreithlon! 'Sw'n i'n feddwl mai i bwrpas meddygol yr oedd Bulkeley yn ei brynu...?

Cyfog ci



Ffwng Cyfog Ci, math o 'slime mould'.

Cyfrannwyd y llun gan Sion Roberts *With this unusually moist summer [2009] so-called dog vomit slime mold has been having a banner year.*

www.readthehook.com
Fuligo septica, the aforementioned dog vomit slime mold is utterly harmless to people, pets and plants. In fact, Fuligo septica is edible. Native people in some parts of Mexico gather it and scramble it like eggs. I hear they call this dish "caca de luna," which I will let you translate for yourself, and which is an even more entertaining name than dog vomit slime mold.

Creigiau llwyd Aberystwyth



Gweld y creigiau diddorol yma ym mhen draw Traeth Tan y Bwlch, o dan yr Allt Wen, sydd tua milltir i'r de o harbwr Aberystwyth. Ddim yn gwbod y math o graig na beth sydd wedi achosi y patrymau. Harri Lloyd, Waunfawr, Aberystwyth. Dowch, chi ddaeaeregwr - her i chi! (Gol.)

Artist y mis.....Ann Lewis



www.annlewis.co.uk

Toriad leino diweddaraf Ann ydi hwn o fynydd y Cnicht. Am fwy amdani hi a'i gwaith ewch i'w gwefan neu i Oriol Llên Natur. Mae dyluniad Ann yn dangos ffurf ddaeaeregol y mynydd gyda gwelyau'r copa yn gorwedd i gyfeiriad y gogledd (i'r chwith) a'u bonion toredig yn wynebu oddi fry tua'r de (ar y dde). Dyma ran o fonyn gogleddol Cromen Harlech enwog.

Manion am y Cnicht o Ddyddiadur Llên Natur:

26 Rhag 1989: 5 bras y gogledd ar y Cnicht. Wil Jones

24 Chwe 1990: carlwm gwyn ar y Cnicht sh635458 Wil Jones

Ewch i Rifyn 22 a 23 o'r Bwletin i weld rhagor am Y Cnicht

Stryd y Rhosyn, Caeredin



Ewch yn ôl i Fwletin 12 i weld y cerffyn cylchog o gerrigos ar draeth Porth Neigwl. Dyma ddau o nifer o fersiynau tebyg o'r un syniad ar hyd Rose Street, Caeredin. Maent yn adlewyrchu daeaereg yr ardal, y tywodfaen a'r basalt tywyll.

Storm o gregyn gleision



Gwynne Morris-Jones wedi rhoi llun y gwely cregyn gleision hwn i Rolant ddoe. SH487896 - ychygid i gyfeiriad y de o Porth Carreg Fawr canol mis Mai yn dilyn gwynt cryf o'r gogledd ddwyrain. Mae gwely

o gregyn gleision yn y cyffiniau.

Mair a Rolant Williams, Llanelian

Cloddfa Abergwyngregyn

Meddai rheolwr y gloddfa John Roberts: 'Mae traddodiad, archaeoleg a dogfennau hanesyddol yn cysylltu'r Tywysogion â nifer o lefydd o gwmpas Abergwyngregyn gan gynnwys Plas Pen y Bryn sy'n edrych dros y pentref



a'r safle wrth y mwnt. Dyma ychwanegu darn arall at y jigsô'.

(Mwy am y canfyddiadau mewn rhifyn i ddod)

Datganiad i'r wasg

Morfilod Merin Rheged



Dyma lun ac adroddiad ryfeddol o laniad miloedd o forfilod y mis hwn yn 1854: *SHOAL OF WHALES IN THE SOLWAY FIRTH: We this week give an illustration of one of the most extraordinary shoals of Cetacea ever known to visit our shores. They were first seen by some fishermen in the Irish sea, on Saturday 16 December [1854], when it was evident that they were out of their reckoning, as they lay floundering about on the surface of the water in a state of great exhaustion. On the following day they were brought by the tide to the mouth of the Solway Firth, and their numbers and magnitude were then more clearly ascertained. As far as the eye could reach, these huge black creatures were to be seen spouting out great columns of water. The noise made by their blowing, and lashing the water, as they got into the shallows, soon drew attention, and great numbers of fishermen and country people came to the shore, hoping to take some of them. A considerable number were slaughtered, but, owing to there being a scarcity of horses to drag the carcasses up the beach, they were one by one floated off by the returning tide, and carried out to sea. On the following day, however, a number of horses having been brought to the shore, very many were secured. Within a distance of two miles from Sillioth Bay, where our sketch [uchod] is taken, upwards of twenty were taken. On Tuesday they got still further up the Firth, and at Annan Dornoch and other places nearly 200 were killed, and oil to the value of £600 has been secured. It is estimated that there were several thousands of them. Their dimensions varied from 18 to about 30 feet and about 12 feet in girth. They were of the family Ambidentatae, having twenty teeth in the upper and eighteen in the lower jaw. They appear to have belonged to the sub-order Delphinidae. In their magnitude, however, and several other characteristics, they differ altogether from the *Delphinus phocaenae*; while in some respects they resemble the *Cachelot*, or *Spermaceti* whale. Quanto delphinis balaena Brittanica Major*

Diolch i John Arfon Owen am y stori o'r Illustrated London News xxxxxxxx

Meddai Rhys Jones: "Edrych fel morfil pengrwm (*Globicephala melas* long-finned pilot whale) oherwydd y maint (er mae 30 troedfedd braidd yn fawr - rhyw 20 troedfedd yw'r gwrywon mwyaf) y lliw du, nifer y dannedd a'r lluniau gwych hefyd! Dolphin ydynt mewn difri nid morfil.

Morfil pigfain Pwllheli



Soniwyd am y morfil hwn yn y rhifyn diwethaf (Bwletin 33). Tynnwyd y llun ar 22 Awst 2010
Cyfrannwyd y llun gan Dafydd Jones

Pa grib sy'n perthyn i'r paniwr?



Y botanegydd o'r Bermo Peter Benoit (chwith) yn arddangos dau fath o grib y paniwr, yr un cyffredin gwyllt yn ei law dde (*Dipsacus fullonum*) a'r un a dyfwyd yn arbennig i'r paniwr yn ei law chwith (*Dipsacus sativus*). Defnyddiwyd yr ail gan

banwyr i gribo gwlan mewn ffram (uchod). Dyma ddywed *The Atlas of the British Flora* am *D. sativus*:

A robust biennial herb, occasionally found as an escape from cultivation or as a bird-seed alien on waste ground, railway sidings and tips. Lowland. Neophyte. D. sativus was formerly cultivated for use in raising the nap of woollen cloth after fulling, and is still grown for that purpose in Somerset (Green et al., 1997). It was first recorded from the wild in 1762. Origin uncertain; presumably derived by selection from a wild Dipsacus species.

Y llun ar y dde uchod gan Guy Edwardes o www.ubcbotanicalgarden.org

Hau halen eto

"Newydd orffen darllen Bwletin 33 (defod dechrau pob mis bellach)" meddai John Jones, Pelcombe, Penfro "a wedi dod ar draws y term 'hau halen'. Un ateb posibl yw fod hau halen yn wrtaith cyffredin i gnydau megis mangls a betys siwgr un amser. O ganlyniad i hyn es i ail-ddarllen llyfr o fy nyddiau coleg yn y pumdegau, sef *Agriculture - The Science and Practice of British Farming* gan Watson a More. Mae'r awduron yn awgrymu: '*mangolds respond to applications of up to 5cwts per acre*' ac hefyd '*it is known that salt can be utilised by the crop*'. Mae cofnod William Jones mwy na thebyg yn cyfeirio at amser hau'r cnwd".

Meddai Twm Elias: Wel ia ynde? Rwy'n cofio darlithiau amaeth Coleg Bangor am roi halen i fetys siwgr, ond wedi llwyr anghofio am y mangls. Doedd fy nhad ddim yn hau halen efo nhw yn y 1950au chwaith, ond e'lla bod gwell 'varieties' erbyn hynny.

A dyma sylw gan Ken "Nantle": 'Chwi yw halen y ddaear'-pam 'y ddaear'? Arferid puro'r tir yn amser yr Iesu a cynt, Byddai'r glaw wedyn yn ei olchi i fwrdd ymhen amser a deuai'r tir yn ffrwythlon eto. Byddai gelynon ar ôl ennill brwydr yn 'lladd y tyfiant a'r gobraith am dyfiant am gyfnod - y trueiniaid gollodd wedyn yn ddibynol ar y gormeswr am gynhaliaeth ac felly yn gaeth[weision] iddo. A wyddoch chi beth - yn eu gorfodi i weithio eu tir eu hunain-gynt i'r gelyn! Clywsom lawer tro am sychedu pobl allan o gestyll ac ati [cofio'r ffilmau cowbois] - troi eu dwr i fwrdd, wel dyma lugu pobl au cael i gydymffurfio. Ymhen amser byddai'r tir yn ffrwythlon eto - ac yn well wrth gwrs ond y gelyn fyddai'r perchenog newydd, a byddai ganddo gaethweision i drin y tir, a rheoli cynhaliaeth a phobl.

Daeth mangolds neu mangle-wurzels i fod yn gynnyrch amaethyddol gntaf yn 1801 gyda'r ffatri cyntaf yn Silesia

DJ Maberley, 2008 Maberley's Plant Book
Llansilyn, Sir Dinbych 23 Ebrill 1925 1900 - 1967. Gorffen hau halen hau Basic Slag yn top Hugh yn llyfnu palu yr ardd mynd i edrych am foch i Park. Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych.